

## “Dim ond ‘dyn ffordd’ yw hwn”

*“Byddwch yn gytûn ymhlith eich gilydd. Gochelwch feddyliau mawreddog; yn hytrach, rhodiwch gyda’r distadl.” (adn. 16)*

### Beth am ddarllen Rhufeiniaid 12:9–21 ac yna myfyrio

Yr wyf am eich atgoffa ein bod yn myfyrio ar y gwirionedd fod yr eglwys yn Antiochia yn cyfrif pob person yn werthfawr. Doedd yna ddim rhaniad ar sail dosbarth. Mae pethau’n wahanol iawn heddiw, o fewn ac o’r tu allan i’r Eglwys.

Ychydig flynyddoedd yn ôl, rwy’n cofio eistedd mewn caffi a chlywed dwy wraig yn siarad am y tywydd. Roedd hi’n tywallt y glaw. Dyma un yn edrych allan trwy’r ffenestr, ac wrth weld y dyn yn ysgubo’r ffordd gydag ond ychydig amddiffyniad rhag y glaw, dyma hi’n dweud: “Edrych ar y dyn bach allan yn y fan yna yn gwlychu at ei groen!” Dyma’r wraig fach arall yn ateb: “Dim ond glanhau’r ffordd y mae’r dyn yna. Rwy’n teimlo’n flin dros y dyn acw. Edrych arno fo yn ei siwt yn disgwyl am y bws. Mae’n rhaid ei fod yn teimlo’n ofnadwy o gael ei ddal mewn cawod fel hyn.” Mae’n amlwg fod y wraig yma yn gallu teimlo rhyw fath o ymdeimlad, ond nid oedd yn ymdeimlo ag angen pob un.

Mae pob cenedl lle gwelir ymrafael hiliol yn cyhoeddi i’r byd: “Yr ydym wedi datblygu yn rhannol fel pobl. Rydym yn ymwybodol o angen ein cenedl ni, ond nid anghenion pobl eraill.” Wrth gwrs, mae yna filiynau o bobl yn byw mewn cenhedloedd lle mae yna ymrafael hiliol sydd yn ymwybodol o anghenion pobl, ond, ar yr un pryd, maent yn anghofio bod yn halen yn eu cymdeithas. A hyd yn oed yn yr Eglwys, mae yna bobl nad ydynt yn dangos agwedd meddwl Crist, nac yn caru gwŷr a gwraegdd, beth bynnag fo’u cefndir. Mae’n amlwg na fyddai unrhyw Gristion yn cymryd rhan mewn gwrthdystiad hiliol, ac eto mae’n gallu coleddu yn y galon y syniad eu bod yn well na rhai pobl eraill. Mae’r math yma o feddylfryd yn bechod. Mae’r dyfodol yn perthyn i’r eglwysi hynny sydd yn ymwrthod yn gyfan gwbl â phob math o hiliaeth ac yn cofleidio pawb ymhobman.

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 13:53–58; Ioan 1:43–46; Actau 4:1–14; 21:27–30

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam oedd y bobl yn methu cyfrannu o rym yr Arglwydd Iesu?
2. Pam y synwyd y Sanhedrin?

### Gweddï

O Dduw grasol a thrugarog, rwy’n gweddïo eto ar i ti fy ngwaredu o unrhyw fath o hiliaeth, gan fy ail-greu fwyfwy ar ddelw dy Fab. Rwy’n gofyn hyn yn enw Iesu. Amen.